OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 3174

# Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007

## RHAN 1

## CYFFREDINIOL

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(**1**); a

ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

### Cychwyn darpariaethau

**2.** Mae darpariaethau Deddf 2004 a bennir yng ngholofn 1 o'r Atodlen yn dod i rym o ran Cymru ar y dyddiad a bennir yng ngholofn 2 at y diben a bennir ynglyn â'r dyddiad hwnnw yng ngholofn 3.

(**1**) 1991 p.22